Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Atal ac Ymateb i Gam-drin Plant yn Rhywiol yng Nghymru – Cynllun Cyflawni

llyw.cymru

2026-2029

# Cynnwys


**Cyflwyniad** 4

**Adran 1:** 6
Cyflawni'r strategaeth
– Llywodraethiant a Strwythur

**Adran 2:** 12
Atal cam-drin plant yn rhywiol

**Adran 3:** 18
Amddiffyn plant ac ymateb iddynt
yn effeithiol pan fo pryderon am
gam-drin plant yn rhywiol

**Adran 4:** 23
Cefnogi plant, pobl ifanc,
rhieni/gofalwyr nad ydynt yn
cam-drin a brodyr a chwiorydd

**Adran 5:** 27
Cefnogi oedolion sy'n
ddioddefwyr-oroeswyr

# Cyflwyniad

Mae'r cynllun cyflawni hwn yn cefnogi Strategaeth Genedlaethol Cymru ar Atal ac Ymateb i Gam-drin Plant yn Rhywiol (2026–2036). Mae'n nodi camau penodol i'w cymryd gan Lywodraeth Cymru a phartneriaid i gyflawni gweledigaeth ac amcanion y Strategaeth.

Bydd camau gweithredu'r cynllun hwn yn cael eu datblygu dros y tair blynedd nesaf. Mae datblygu cynllun byr â ffocws yn golygu y gellir myfyrio a gwerthuso'n rheolaidd, gan sicrhau bod gweithgarwch yn parhau i fod yn effeithiol ac yn cyd-fynd â'n hamcanion strategol. Bydd angen dull croestoriadol er mwyn rhoi'r camau gweithredu ar waith, gan gydnabod anghenion penodol poblogaethau gwahanol ac ymateb iddynt.

Noder: Er mwyn adlewyrchu dysgu parhaus a themâu datblygol, bydd camau gweithredu yn y cynllun cyflawni yn aeddfedu ac yn datblygu dros amser.

Dylid darllen y ddogfen hon ar y cyd â'r Strategaeth ar Atal ac Ymateb i Gam-drin Plant yn Rhywiol 2026-2036.

## Ein gweledigaeth a'n hamcanion strategol

Mae pob plentyn yng Nghymru yn byw'n rhydd rhag niwed cam-drin plant yn rhywiol ac mae pawb yr effeithir arnynt gan gam-drin plant yn rhywiol yn cael eu hamddiffyn a'u cefnogi drwy gydol eu hoes.

1. Atal cam-drin plant yn rhywiol
2. Amddiffyn plant ac ymateb yn effeithiol pan fo pryderon am gam-drin plant yn rhywiol
3. Cefnogi plant, rhieni/gofalwyr nad ydynt yn cam-drin, brodyr a chwiorydd ac aelodau eraill o'r teulu
4. Cefnogi oedolion sy'n ddioddefwyr-oroeswyr

# Adran 1:

## Cyflawni'r strategaeth – Llywodraethiant a Strwythur

| Cam gweithredu lefel uchel | Pwy sy'n arwain y gwaith | Yr hyn y byddwn yn ei wneud | Pryd | Canlyniadau bwriedig | Partneriaid cyflawni allweddol |
|---|---|---|---|---|---|
| **1.1 Sefydlu mecanweithiau strwythuredig er mwyn sicrhau cydweithredu rhwng timau polisi Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU ar gyfer materion heb eu datganoli i gefnogi'r gwaith o gyflawni'r strategaeth** | Tîm Diogelu ac Eiriolaeth Llywodraeth Cymru | Sefydlu grŵp cynghori polisi trawslywodraethol a sicrhau cydlyniant polisi<br><br>Ymgysylltu'n rheolaidd â'r Swyddfa Gartref, y Weinyddiaeth Gyfiawnder, yr Adran Addysg, yr Adran Iechyd a sicrhau ymgysylltu trawslywodraethol<br><br>Nodi cyfleoedd ar gyfer cydweithio ar draws meysydd polisi i gyflawni gweledigaeth strategol | Blwyddyn 1 ymlaen<br><br>Blwyddyn 1 ymlaen<br><br>Blwyddyn 1 ymlaen | Cydweithredu trawslywodraethol i gefnogi'r gwaith o gyflawni'r strategaeth | Llywodraeth Cymru<br><br>Y Swyddfa Gartref<br><br>Y Weinyddiaeth Gyfiawnder<br><br>Adran Iechyd y DU<br><br>Adran Addysg y DU |
| **1.2 Sefydlu trefniadau llywodraethiant i fonitro'r gwaith o gyflawni'r strategaeth ac effeithiolrwydd y gwaith hwnnw** | Tîm Diogelu ac Eiriolaeth Llywodraeth Cymru | Sefydlu Bwrdd Gweithredu a Throsolwg Strategol gydag aelodaeth o blith rhanddeiliaid allweddol sy'n bartneriaid inni<br><br>Sefydlu is-grwpiau/grwpiau gorchwyl a gorffen a fydd yn adrodd i'r Bwrdd.<br><br>Sefydlu mecanweithiau adrodd gan gynnwys i Weinidogion a chyhoeddi'n flynyddol yr wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd<br><br>Datblygu a chyflwyno adroddiad cynnydd i'w gyhoeddi bob tair blynedd sy'n asesu effaith ac yn nodi cyfleoedd | Blwyddyn 1<br><br>Blwyddyn 1<br><br>Blwyddyn 1<br><br>Blynyddoedd 1- 3 | Atebolrwydd cenedlaethol cadarn a thryloywder wrth gyflawni | Llywodraeth Cymru<br><br>Awdurdodau Lleol<br><br>Yr Heddlu<br><br>Y Gwasanaeth Prawf<br><br>Cyfiawnder Ieuenctid<br><br>Byrddau Iechyd<br><br>Byrddau Diogelu Rhanbarthol<br><br>Comisiynydd Plant Cymru<br><br>Y Comisiynydd Pobl Hŷn<br><br>Y byd academaidd |

| Cam gweithredu lefel uchel | Pwy sy'n arwain y gwaith | Yr hyn y byddwn yn ei wneud | Pryd | Canlyniadau bwriedig | Partneriaid cyflawni allweddol |
|---|---|---|---|---|---|
| **1.3 Sefydlu mecanweithiau er mwyn sicrhau bod y gwaith o gyflawni yn cael ei lywio a'i arwain gan oedolion sy'n ddioddefwyr-oroeswyr** | Tîm Diogelu ac Eiriolaeth Llywodraeth Cymru | Sefydlu grŵp cynghorol oedolion sy'n ddioddefwyr-oroeswyr, a gaiff ei sefydlu a'i gefnogi mewn ffordd sy'n ddiogel, yn foesegol ac yn ystyriol o drawma, gan benodi Cadeirydd, Is-gadeirydd ac aelodau â phrofiadau bywyd amrywiol.<br><br>Cynnal ymarferion ymgysylltu gyda grwpiau arbenigol dioddefwyr-oroeswyr/profiad bywyd ledled Cymru.<br><br>Grŵp cynghorol i ddatblygu cynllun gwaith i gynnwys:<br>• Cyfrannu at raglen ymarferwyr<br>• Llywio blaenoriaethau yn y Strategaeth a'r Cynllun Cyflawni<br>• Cynghori ar gynnydd yn seiliedig ar safbwyntiau'r grŵp a chynnydd o ran cyflawni<br>• Cyd-ddatblygu cynllun gwaith ar gyfer 2029-2032 | Blynyddoedd 1 a 2<br><br>Blwyddyn 1 ymlaen<br><br>Blynyddoedd 2 a 3 | Mae'r gwaith o gyflawni yn cael ei lywio a'i arwain gan brofiad bywyd oedolion sy'n ddioddefwyr-oroeswyr | Llywodraeth Cymru<br><br>Sefydliadau'r trydydd sector sy'n cefnogi pobl yr effeithiwyd arnynt gan gam-drin plant yn rhywiol |

| Cam gweithredu lefel uchel | Pwy sy'n arwain y gwaith | Yr hyn y byddwn yn ei wneud | Pryd | Canlyniadau bwriedig | Partneriaid cyflawni allweddol |
| --- | --- | --- | --- | --- | --- |
| **1.4 Sefydlu mecanweithiau er mwyn sicrhau bod y gwaith o gyflawni yn cael ei lywio a'i arwain gan blant a phobl ifanc sy'n ddioddefwyr-oroeswyr** | Tîm Diogelu ac Eiriolaeth Llywodraeth Cymru | Sefydlu grŵp cynghorol plant a phobl ifanc sy'n ddioddefwyr-oroeswyr, a gaiff ei sefydlu a'i gefnogi mewn ffordd sy'n ddiogel, yn foesegol ac yn ystyriol o drawma, gan benodi Cadeirydd, Is-gadeirydd ac aelodau sydd â phrofiadau bywyd amrywiol.<br><br>Cynnal ymarferion ymgysylltu gyda grwpiau arbenigol dioddefwyr-oroeswyr/profiad bywyd ledled Cymru<br><br>Grŵp cynghorol i ddatblygu cynllun gwaith i gynnwys:<br>• Cyfrannu at raglen ymarferwyr<br>• Llywio blaenoriaethau yn y Strategaeth a'r Cynllun Cyflawni<br>• Cynghori ar gynnydd yn seiliedig ar safbwyntiau'r grŵp a chynnydd o ran cyflawni<br>• Cyd-ddatblygu cynllun gwaith ar gyfer 2029-2032 | Blwyddyn 1<br><br>Blwyddyn 1 ymlaen<br><br>Blynyddoedd 2 a 3 | Mae'r gwaith o gyflawni yn cael ei lywio a'i arwain gan blant a phobl ifanc | Llywodraeth Cymru<br><br>Sefydliadau'r trydydd sector sy'n cefnogi pobl yr effeithiwyd arnynt gan gam-drin plant yn rhywiol |

| Cam gweithredu lefel uchel | Pwy sy'n arwain y gwaith | Yr hyn y byddwn yn ei wneud | Pryd | Canlyniadau bwriedig | Partneriaid cyflawni allweddol |
|---|---|---|---|---|---|
| **1.5 Datblygu set ddata graidd ar gyfer cam-drin plant yn rhywiol a ddefnyddir i lywio'r gwaith o gomisiynu gwasanaethau a datblygu ymarfer yng Nghymru** | Tîm Diogelu ac Eiriolaeth Llywodraeth Cymru | Sefydlu grŵp traws-sector a grŵp gorchwyl a gorffen y llywodraeth i wella data ac adrodd sy'n ymwneud â cham-drin plant yn rhywiol.<br><br>Nodi setiau data cyfredol (cenedlaethol, rhanbarthol a lleol) ar draws sefydliadau partner i nodi graddfa a chyffredinrwydd cam-drin plant yn rhywiol.<br><br>Nodi bylchau a gwneud argymhellion ynghylch sut y gellid mynd i'r afael â nhw.<br><br>Datblygu map llwybr sy'n rhoi manylion am sut a phryd y bydd y gwelliannau hyn o ran casglu ac adrodd data yn cael eu gwneud. | Blwyddyn 1<br><br>Blwyddyn 1<br><br>Blynyddoedd 1 a 2<br><br>Blynyddoedd 1 a 2 | Set ddata genedlaethol ar gyfer cam-drin plant yn rhywiol a gesglir yn gyson i ddangos cyffredinrwydd, graddfa, a natur.<br><br>Set ddata graidd y cytunwyd arni ar waith ar gyfer cam-drin plant yn rhywiol i alluogi dadansoddiad cenedlaethol<br><br>Mae comisiynu gwasanaethau a datblygu ymarfer wedi'i seilio ar setiau data dibynadwy a safonol. | Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol<br><br>Y byd academaidd<br><br>Byrddau Diogelu Rhanbarthol<br><br>Y Swyddfa Gartref<br><br>Y Weinyddiaeth Gyfiawnder<br><br>Plismona yng Nghymru<br><br>Awdurdodau lleol<br><br>Byrddau Iechyd Lleol<br><br>Iechyd Cyhoeddus Cymru<br><br>Sefydliadau'r trydydd sector sy'n cefnogi pobl yr effeithiwyd arnynt gan gam-drin plant yn rhywiol |

| Cam gweithredu lefel uchel | Pwy sy'n arwain y gwaith | Yr hyn y byddwn yn ei wneud | Pryd | Canlyniadau bwriedig | Partneriaid cyflawni allweddol |
|---|---|---|---|---|---|
| **1.6 Cynnal cynhadledd genedlaethol ddiwedd 2028/29 i rannu dysgu o dair blynedd gyntaf y strategaeth** | Cangen Diogelu ac Eiriolaeth, Llywodraeth Cymru | Cynllunio a chyflwyno cynhadledd genedlaethol i'w chynnal ddiwedd 2028/dechrau 2029.<br><br>Allbynnau o'r gynhadledd i lywio camau gweithredu ar gyfer y cynllun cyflawni tair blynedd dilynol. | Blynyddoedd 2 a 3<br><br>Blwyddyn 3 | Rhannu dysgu ac arferion gorau er mwyn ysgogi gwelliant | Llywodraeth Cymru<br><br>Byrddau Diogelu Rhanbarthol<br><br>Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol<br><br>Partneriaid statudol - awdurdodau lleol, yr heddlu, y gwasanaeth prawf, y gwasanaeth cyfiawnder ieuenctid, byrddau ac ymddiriedolaethau iechyd<br><br>Sefydliadau'r trydydd sector sy'n cefnogi pobl yr effeithiwyd arnynt gan gam-drin plant yn rhywiol |

# Adran 2:
# Atal cam-drin plant yn rhywiol

## Canlyniadau hirdymor rydym am eu cyflawni:

1. Creu a chynnal diwylliant o onestrwydd a dealltwriaeth lle mae pawb yn teimlo'n ddiogel ac yn hyderus i siarad am bob math o gam-drin plant yn rhywiol.

2. Mae plant a phobl ifanc a'r oedolion o'u cwmpas yn cael eu grymuso i gadw plant yn ddiogel rhag cam-drin rhywiol ac yn gwybod sut i roi gwybod am bryderon.

3. Mae cymunedau'n adnabod, yn ymateb ac yn rhoi gwybod am bryderon am gam-drin plant yn rhywiol.

4. Mae ymateb effeithiol i'r rhai sy'n cam-drin plant yn rhywiol, neu sy'n cael meddyliau am gam-drin plant yn rhywiol, sy'n atal niwed pellach.

| Cam gweithredu lefel uchel | Pwy sy'n arwain y gwaith | Yr hyn y byddwn yn ei wneud | Pryd | Canlyniadau bwriedig | Rhanddeiliaid allweddol |
|---|---|---|---|---|---|
| **2.1 Datblygu cynllun cyfathrebu ac ymgysylltu sy'n esbonio sut y byddwn yn diwallu anghenion codi ymwybyddiaeth pob cynulleidfa y mae angen i ni ei chyrraedd** | Grŵp ffrwd waith atal | Cydweithio â rhanddeiliaid allweddol i nodi'r holl gynulleidfaoedd targed, gan gynnwys y rhai sydd â nodweddion gwarchodedig, plant, pobl ifanc, rhieni, y rhai sy'n rhoi gofal, gofalwyr di-dâl a grwpiau nas clywir yn aml. | Blwyddyn 1 | Dealltwriaeth gadarn o'r grwpiau rydym am ymgysylltu â nhw a sut y byddwn yn gwneud hyn. Rydym wedi nodi adnoddau sydd ar gael ar hyn o bryd y gellir eu rhannu â'r grwpiau hyn mewn fformat sy'n diwallu eu hanghenion, ac rydym wedi nodi'r bylchau ac wedi datblygu a lansio adnoddau i fynd i'r afael â'r bylchau hynny. | Llywodraeth Cymru<br>Grŵp cynghorol plant a phobl ifanc<br>Grŵp cynghorol oedolion sy'n ddioddefwyr-oroeswyr<br>Rhieni/y rhai sy'n rhoi gofal a brodyr a chwiorydd<br>Byrddau Diogelu Rhanbarthol<br>Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol<br>Partneriaid statudol - awdurdodau lleol, yr heddlu, y gwasanaeth prawf, y gwasanaeth cyfiawnder ieuenctid, byrddau ac ymddiriedolaethau iechyd<br>Sefydliadau'r trydydd sector sy'n cefnogi pobl yr effeithiwyd arnynt gan gam-drin plant yn rhywiol<br>Grŵp Rhanddeiliaid BSL Llywodraeth Cymru.<br>Grŵp Hawliau Anabledd Llywodraeth Cymru |
| | | Datblygu a chyhoeddi Cynllun Cyfathrebu ac Ymgysylltu. | Blwyddyn 1 | | |
| | | Mapio adnoddau sydd ar gael i'r cynulleidfaoedd hyn ar hyn o bryd, gan gynnwys ym mha fformat y maent ar gael ac a yw hyn yn diwallu eu hanghenion. | Blwyddyn 1 | | |
| | | Nodi'r bylchau a blaenoriaethu'r adnoddau y mae angen eu creu i fynd i'r afael â'r bylchau hyn. | Blynyddoedd 1 a 2 | | |
| | | Canoli'r adnoddau presennol sydd eisoes ar gael. | Blwyddyn 2 ymlaen | | |
| | | Sicrhau bod yr holl adnoddau yn ddwyieithog ac ar gael mewn fformatau sy'n diwallu anghenion pobl â nodweddion gwarchodedig, er enghraifft, Hawdd ei Ddeall, BSL. | Blwyddyn 2 ymlaen | | |
| | | Ymgysylltu â chymunedau amrywiol er mwyn deall sensitifrwydd diwylliannol ac ieithyddol ynghylch cam-drin plant yn rhywiol. | Blwyddyn 2 ymlaen | | |
| | | Datblygu adnoddau wedi'u targedu ar gyfer grwpiau agored i niwed penodol, megis plant ag anableddau, plant sy'n derbyn gofal a phlant sydd â rhiant sydd wedi'i arestio/sydd ag euogfarn o droseddau cam-drin/camfanteisio/deunyddiau cam-drin plant yn rhywiol (CSAM) ar-lein. | Blwyddyn 2 ymlaen | | |

| Cam gweithredu lefel uchel | Pwy sy'n arwain y gwaith | Yr hyn y byddwn yn ei wneud | Pryd | Canlyniadau bwriedig | Rhanddeiliaid allweddol |
|---|---|---|---|---|---|
| 2.1 | Grŵp ffrwd waith atal | Archwilio'r posibilrwydd o greu llysgenhadon atal cam-drin plant yn rhywiol ym mhob cymuned a all barhau i gefnogi'r gwaith o ledaenu gwybodaeth ac adnoddau (e.e. cyngor tref, grwpiau dioddefwyr-oroeswyr neu sefydliadau cymunedol gwirfoddol lleol).<br><br>Cynnal gwerthusiad trylwyr o effeithiolrwydd ac effaith adnoddau, gan gynnwys sefydliadau partner ac adborth plant a phobl ifanc, adborth oedolion sy'n ddioddefwyr-oroeswyr, data a gwybodaeth arall.<br><br>Defnyddio'r canfyddiadau hyn i lywio'r adroddiad cynnydd tair blynedd, newidiadau i'r strategaeth ac i ddatblygu camau gweithredu ar gyfer y cynllun cyflawni 2030-2033.<br><br>Adolygu a diwygio'r Cynllun Cyfathrebu ac Ymgysylltu i adlewyrchu unrhyw ddysgu o'r 3 blynedd gyntaf. | Blwyddyn 3 ymlaen<br><br>Blwyddyn 3 ymlaen<br><br>Canol Blwyddyn 3 ymlaen<br><br>Blwyddyn 3 | Dealltwriaeth gadarn o'r grwpiau rydym am ymgysylltu â nhw a sut y byddwn yn gwneud hyn. Rydym wedi nodi adnoddau sydd ar gael ar hyn o bryd y gellir eu rhannu â'r grwpiau hyn mewn fformat sy'n diwallu eu hanghenion, ac rydym wedi nodi'r bylchau ac wedi datblygu a lansio adnoddau i fynd i'r afael â'r bylchau hynny. | Llywodraeth Cymru<br><br>Grŵp cynghorol plant a phobl ifanc<br><br>Grŵp cynghorol oedolion sy'n ddioddefwyr-oroeswyr<br><br>Rhieni/y rhai sy'n rhoi gofal a brodyr a chwiorydd<br><br>Byrddau Diogelu Rhanbarthol<br><br>Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol<br><br>Partneriaid statudol - awdurdodau lleol, yr heddlu, y gwasanaeth prawf, y gwasanaeth cyfiawnder ieuenctid, byrddau ac ymddiriedolaethau iechyd<br><br>Sefydliadau'r trydydd sector sy'n cefnogi pobl yr effeithiwyd arnynt gan gam-drin plant yn rhywiol<br><br>Grŵp Rhanddeiliaid BSL Llywodraeth Cymru.<br><br>Grŵp Hawliau Anabledd Llywodraeth Cymru |

| Cam gweithredu lefel uchel | Pwy sy'n arwain y gwaith | Yr hyn y byddwn yn ei wneud | Pryd | Canlyniadau bwriedig | Rhanddeiliaid allweddol |
|---|---|---|---|---|---|
| **2.2 Datblygu a lansio ymgyrchoedd cenedlaethol a lleol i godi ymwybyddiaeth o gyffredinrwydd cam-drin plant yn rhywiol, y niwed y gall ei achosi, sut i adnabod pryderon a sut i roi gwybod am bryderon** | Grŵp ffrwd waith atal | Datblygu tudalen we ganolog i'r holl adnoddau, dogfen strategaeth, cynlluniau cyflawni, canllawiau, dolenni i ddatganiadau ysgrifenedig a chynhyrchion eraill.<br><br>Cyflwyno ymgyrchoedd codi ymwybyddiaeth a gwerthuso eu canlyniadau.<br><br>Defnyddio'r canfyddiadau hyn i lywio'r adroddiad cynnydd tair blynedd a datblygu camau gweithredu ar gyfer cynllun cyflawni 2029-2032. | Blynyddoedd 1 a 2<br><br>Yn flynyddol<br><br>Blwyddyn 3 | Codi ymwybyddiaeth ledled Cymru o'r mathau o gam-drin rhywiol sy'n digwydd i blant, y niwed y gall ei achosi, sut i nodi dangosyddion cam-drin plant yn rhywiol a chamfanteisio'n rhywiol ar blant a sut i roi gwybod am bryderon. | Grŵp Cynghorol Plant a Phobl Ifanc<br><br>Grŵp Cynghorol Oedolion sy'n Ddioddefwyr-Oroeswyr<br><br>Llywodraeth Cymru<br><br>Byrddau Diogelu Rhanbarthol<br><br>Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol<br><br>Partneriaid statudol - awdurdodau lleol, yr heddlu, y gwasanaeth prawf, y gwasanaeth cyfiawnder ieuenctid, byrddau ac ymddiriedolaethau iechyd<br><br>Sefydliadau'r trydydd sector sy'n cefnogi pobl yr effeithiwyd arnynt gan gam-drin plant yn rhywiol<br><br>Grŵp Rhanddeiliaid BSL Llywodraeth Cymru.<br><br>Grŵp Hawliau Anabledd Llywodraeth Cymru |

| Cam gweithredu lefel uchel | Pwy sy'n arwain y gwaith | Yr hyn y byddwn yn ei wneud | Pryd | Canlyniadau bwriedig | Rhanddeiliaid allweddol |
|---|---|---|---|---|---|
| **2.3 Gweithio gyda pholisi addysg a gofal plant i godi ymwybyddiaeth gweithwyr proffesiynol a gwirfoddolwyr mewn perthynas â datblygiad rhywiol iach plant** | Grŵp ffrwd waith atal | Nodi:<br>• deunyddiau ar gyfer y cyhoedd a chanoli'r adnoddau hyn gydag adnoddau eraill ar gyfer plant a phobl ifanc, rhieni/gofalwyr a gweithwyr proffesiynol.<br>• gweithgareddau codi ymwybyddiaeth eraill sy'n cael eu cynnal a hyfforddiant sy'n cael ei ddarparu. Mapio bylchau a mynd i'r afael â nhw. | Blwyddyn 2 ymlaen<br><br>Blwyddyn 2 ymlaen | Mae gan weithwyr proffesiynol a gwirfoddolwyr ddealltwriaeth gadarn o ddatblygiad rhywiol iach sy'n eu helpu i ymateb yn effeithiol i bryderon a godir am ymddygiadau amhriodol/nad ydynt yn iach | Llywodraeth Cymru<br><br>Byrddau Diogelu Rhanbarthol<br><br>Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol<br><br>Partneriaid statudol - awdurdodau lleol, yr heddlu, y gwasanaeth prawf, y gwasanaeth cyfiawnder ieuenctid, byrddau ac ymddiriedolaethau iechyd<br><br>Sefydliadau'r trydydd sector sy'n cefnogi pobl yr effeithiwyd arnynt gan gam-drin plant yn rhywiol |

| Cam gweithredu lefel uchel | Pwy sy'n arwain y gwaith | Yr hyn y byddwn yn ei wneud | Pryd | Canlyniadau bwriedig | Rhanddeiliaid allweddol |
|---|---|---|---|---|---|
| 2.4 Ymgysylltu â sefydliadau a chyrff i ddatblygu gwell dealltwriaeth o oedolion sy'n cael meddyliau am gam-drin plant yn rhywiol a'r gwasanaethau sydd ar gael i'w cefnogi | Grŵp ffrwd waith atal | Cynnal ymarfer cwmpasu cynhwysfawr i sicrhau bod darlun clir o'r bobl sy'n cael mynediad at gymorth.<br><br>Datblygu cyfeiriadur adnoddau y gellir ei gynnig i gefnogi pobl sy'n cael meddyliau am niweidio plant. | Blwyddyn 1<br><br>Blwyddyn 2 | Gwell dealltwriaeth o oedolion sy'n cael meddyliau am gam-drin plant yn rhywiol, eu hanghenion a sut maent yn cael eu cefnogi, a fydd yn ein galluogi i gynllunio a llywio'r gwasanaethau cymorth y mae eu hangen ledled Cymru.<br><br>Bydd oedolion yng Nghymru sy'n cael meddyliau am gam-drin plant yn rhywiol yn cael cymorth amserol a chymesur er mwyn atal unrhyw gam-drin rhag gwaethygu.<br><br>Bydd oedolion yng Nghymru sydd wedi cam-drin a niweidio plant yn rhywiol yn cael y cymorth sydd ei angen arnynt. | Llywodraeth Cymru<br><br>Byrddau Diogelu Rhanbarthol<br><br>Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol<br><br>Partneriaid statudol - awdurdodau lleol, yr heddlu, y gwasanaeth prawf, y gwasanaeth cyfiawnder ieuenctid, byrddau ac ymddiriedolaethau iechyd<br><br>Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol<br><br>Partneriaid statudol - awdurdodau lleol, yr heddlu, y gwasanaeth prawf, y gwasanaeth cyfiawnder ieuenctid, byrddau ac ymddiriedolaethau iechyd<br><br>Internet Watch Foundation |

# Adran 3:
# Amddiffyn plant ac ymateb iddynt yn effeithiol pan fo pryderon am gam-drin plant yn rhywiol

## Canlyniadau hirdymor rydym am eu cyflawni:

1. Mae pob gweithiwr proffesiynol yn cael hyfforddiant cam-drin plant yn rhywiol ar lefel sy'n briodol i'w rolau a gallant nodi ac ymateb i gam-drin rhywiol, cefnogi plant a'u teuluoedd ac asesu a rheoli risgiau sy'n gysylltiedig â cham-drin rhywiol.

2. Mae rhieni a gofalwyr yn cael cymorth amserol os yw eu plentyn yn wynebu risg o gam-drin plant yn rhywiol, yn cael ei gam-drin yn rhywiol neu wedi cael ei gam-drin yn rhywiol, neu'n cymryd rhan mewn ymddygiad rhywiol niweidiol.

3. Mae ymateb amlasiantaeth cyson i bryderon ynghylch cam-drin plant yn rhywiol ledled Cymru.

4. Gall gweithwyr proffesiynol gael mynediad at gyngor arbenigol i gefnogi eu gwaith gyda phlant, teuluoedd ac oedolion sy'n ddioddefwyr-oroeswyr.

5. Mae plant a phobl ifanc yn gwybod y byddant yn cael eu gweld, eu clywed a'u deall os ydynt yn cael eu cam-drin yn rhywiol neu'n teimlo eu bod yn wynebu risg o gam-drin plant yn rhywiol

| Cam gweithredu lefel uchel | Pwy sy'n arwain y gwaith | Yr hyn y byddwn yn ei wneud | Pryd | Canlyniadau bwriedig | Rhanddeiliaid allweddol |
|---|---|---|---|---|---|
| 3.1 Cefnogi ymarferwyr i gael mynediad at gyngor arbenigol am gam-drin plant yn rhywiol a chamfanteisio'n rhywiol ar blant pan fo angen | Grŵp ffrwd waith diogelu | Cwmpasu:<br>• y trefniadau sydd ar waith yng Nghymru ar hyn o bryd i gael mynediad at gyngor arbenigol ar gam-drin plant yn rhywiol<br>• y potensial i sefydlu canolfannau arbenigol cam-drin plant yn rhywiol (rhithwir) gyda rhanddeiliaid allweddol<br>• y costau a fyddai'n gysylltiedig â sefydlu trefniadau o'r fath, gan gynnwys datblygu a gweithredu Rhaglen Ymarferwyr Arweiniol Cymru Gyfan.<br>Argymhellion yr adroddiad cwmpasu i lywio'r camau nesaf ynghylch sut y gellir cryfhau mynediad at gyngor arbenigol ar gam-drin plant yn rhywiol. | Blwyddyn 1<br>Blwyddyn 1<br>Blwyddyn 1<br>Blwyddyn 2 | Gall pob ymarferydd gael mynediad at gyngor arbenigol ar gam-drin plant yn rhywiol er mwyn gwella cymorth a chanlyniadau i blant a theuluoedd. | Llywodraeth Cymru<br>Byrddau Diogelu Rhanbarthol<br>Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol<br>Partneriaid statudol - awdurdodau lleol, yr heddlu, y gwasanaeth prawf, y gwasanaeth cyfiawnder ieuenctid, byrddau ac ymddiriedolaethau iechyd<br>Sefydliadau'r trydydd sector sy'n cefnogi pobl yr effeithiwyd arnynt gan gam-drin plant yn rhywiol |
| 3.2 Datblygu a gweithredu llwybr y cytunwyd arno'n genedlaethol ar gyfer ymateb i gam-drin plant yn rhywiol a chamfanteisio'n rhywiol ar blant | Tîm Diogelu ac Eiriolaeth Llywodraeth Cymru | Sefydlu grŵp traws-sector i'w gadeirio gan y tîm Diogelu ac Eiriolaeth, Llywodraeth Cymru.<br>Ymgysylltu'n ehangach â rhanddeiliaid ar draws sectorau.<br>Asesu'r costau sy'n gysylltiedig â datblygu llwybr rhyngweithiol a darparu argymhellion ar gyfer camau gweithredu dilynol. | Blwyddyn 1<br>Blwyddyn 1<br>Blwyddyn 1 | Mae llwybr cenedlaethol ar gyfer ymateb i gam-drin plant yn rhywiol yn hygyrch i bob gweithiwr proffesiynol ac mae'n darparu cyngor a chanllawiau clir a gaiff eu deall yn dda, ac mae hyn yn gwella cysondeb yr ymateb amlasiantaeth ledled Cymru. | Llywodraeth Cymru<br>Byrddau Diogelu Rhanbarthol<br>Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol<br>Partneriaid statudol - awdurdodau lleol, yr heddlu, y gwasanaeth prawf, y gwasanaeth cyfiawnder ieuenctid, byrddau ac ymddiriedolaethau iechyd<br>Sefydliadau'r trydydd sector sy'n cefnogi pobl yr effeithiwyd arnynt gan gam-drin plant yn rhywiol |

| Cam gweithredu lefel uchel | Pwy sy'n arwain y gwaith | Yr hyn y byddwn yn ei wneud | Pryd | Canlyniadau bwriedig | Rhanddeiliaid allweddol |
|---|---|---|---|---|---|
| **3.3 Adolygu'r holl ddogfennau polisi, gweithdrefnau a chanllawiau ymarfer cenedlaethol (Canllawiau Llywodraeth Cymru a Gweithdrefnau Diogelu Cymru) sy'n ymwneud â cham-drin plant yn rhywiol, er mwyn asesu'r cynnydd a wnaed, y canlyniadau a gyflawnwyd a'r effaith yn ymarferol, a nodi camau pellach sydd eu hangen i godi ymwybyddiaeth a pharhau i ddatblygu, gweithredu ac ymwreiddio yn ymarferol** | Grŵp ffrwd waith diogelu | Adolygu effeithiolrwydd gweithredu dogfennau polisi, gweithdrefnau a chanllawiau ymarfer sydd ar gael ar hyn o bryd a'u mireinio os oes angen.<br><br>Nodi a chyflawni camau ychwanegol i godi ymwybyddiaeth a pharhau i ddatblygu a gweithredu'r arferion hyn a'u sefydlu'n gadarn.<br><br>Datblygu, lansio a chanoli unrhyw adnoddau ategol ychwanegol/diwygiedig ar gyfer ymarferwyr.<br><br>Datblygu a gweithredu cynllun cynnal a chadw er mwyn sicrhau bod polisïau a gweithdrefnau yn parhau i roi sylw i faterion sy'n datblygu | Blwyddyn 1<br><br>Blynyddoedd 1 a 2<br><br>Blwyddyn 2<br><br>Blwyddyn 2 ymlaen | Dealltwriaeth gadarn o effeithiolrwydd gweithredu polisi a gweithdrefnau cam-drin plant yn rhywiol.<br><br>Nodi a chymryd rhagor o gamau er mwyn sicrhau bod arferion da yn parhau a bod gennym gynllun ar waith i sicrhau bod polisïau a gweithdrefnau yn parhau i roi sylw i faterion sy'n datblygu. | Llywodraeth Cymru<br><br>Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol<br><br>Byrddau Diogelu Rhanbarthol<br><br>Swyddfa Comisiynydd Plant Cymru<br><br>Swyddfa Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru<br><br>Sefydliadau statudol<br><br>Sefydliadau'r trydydd sector<br><br>Arolygiaethau<br><br>Academyddion/ymchwilwyr |

| Cam gweithredu lefel uchel | Pwy sy'n arwain y gwaith | Yr hyn y byddwn yn ei wneud | Pryd | Canlyniadau bwriedig | Rhanddeiliaid allweddol |
|---|---|---|---|---|---|
| 3.4 Gweithredu'r fframwaith hyfforddi ar gyfer cam-drin plant yn rhywiol a ddatblygwyd gan y Ganolfan Arbenigedd ar Gam-drin Plant yn Rhywiol yng nghyd-destun Cymru | Tîm Diogelu ac Eiriolaeth Llywodraeth Cymru | Sefydlu grŵp gorchwyl a gorffen traws-sector i weithredu, monitro a gwerthuso.<br><br>Ymgynghori â rhanddeiliaid i gadarnhau bod y fframwaith yn bodloni anghenion hyfforddi. | Blwyddyn 1 ymlaen<br><br>Blwyddyn 1 ymlaen | Mae gan bob gweithiwr proffesiynol a gwirfoddolwr yng Nghymru fynediad at raglen dreigl o hyfforddiant ar gam-drin plant yn rhywiol, sy'n rhoi sylw i faterion newydd wrth iddynt ddatblygu, sy'n hygyrch mewn gwahanol fformatau ac yn gymesur â'r rôl y mae'r person yn ymgymryd â hi. | Llywodraeth Cymru<br><br>Byrddau Diogelu Rhanbarthol<br><br>Gofal Cymdeithasol Cymru<br><br>Arolygiaeth Gofal Cymru<br><br>Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru<br><br>Estyn<br><br>Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol<br><br>Partneriaid statudol – awdurdodau lleol, yr heddlu, y gwasanaeth prawf, y gwasanaeth cyfiawnder ieuenctid a byrddau ac ymddiriedolaethau iechyd<br><br>Sefydliadau'r trydydd sector sy'n cefnogi pobl yr effeithiwyd arnynt gan gam-drin plant yn rhywiol<br><br>Gofal Cymdeithasol Cymru a rheoleiddwyr eraill y gweithlu |

| Cam gweithredu lefel uchel | Pwy sy'n arwain y gwaith | Yr hyn y byddwn yn ei wneud | Pryd | Canlyniadau bwriedig | Rhanddeiliaid allweddol |
|---|---|---|---|---|---|
| 3.5 Datblygu/canfod deunyddiau hyfforddi, goruchwylio ac ymarfer myfyriol i gefnogi ymarferwyr sy'n gweithio gyda'r rhai yr effeithir arnynt gan gam-drin plant yn rhywiol | Grŵp ffrwd waith diogelu | Ystyried pa adnoddau sydd ar gael ar hyn o bryd i ymarferwyr arbenigol i gynorthwyo eu gwaith gyda phlant a theuluoedd. Archwilio'r gofyniad posibl i gael grwpiau gorchwyl a gorffen penodol i'r sector sy'n cyfrannu at y broses hon.<br><br>Nodi datblygiadau gofynnol, blaenoriaethu ac ychwanegu camau gweithredu at y cynllun cyflawni i fynd i'r afael â nhw.<br><br>Canoli adnoddau sy'n seiliedig ar dystiolaeth ar y dudalen we a datblygu rhagor o ddeunyddiau i gefnogi dealltwriaeth ymarferwyr/rheolwyr. | Blynyddoedd 1 a 2<br><br>Blynyddoedd 1 a 2<br><br>Blynyddoedd 2 a 3 | Mae ymarferwyr a rheolwyr yn gallu cael mynediad at amrywiaeth o ddeunyddiau i'w helpu i weithio gyda phlant a phobl ifanc, rhieni/gofalwyr nad ydynt yn cam-drin, brodyr a chwiorydd ac aelodau eraill o'r teulu yr effeithiwyd arnynt gan gam-drin plant yn rhywiol | Llywodraeth Cymru<br><br>Byrddau Diogelu Rhanbarthol<br><br>Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol<br><br>Partneriaid statudol - awdurdodau lleol, yr heddlu, y gwasanaeth prawf, y gwasanaeth cyfiawnder ieuenctid, byrddau ac ymddiriedolaethau iechyd<br><br>Sefydliadau'r trydydd sector sy'n cefnogi pobl yr effeithiwyd arnynt gan gam-drin plant yn rhywiol<br><br>Straen Trawmatig Cymru |

# Adran 4:
# Cefnogi plant, pobl ifanc, rhieni/gofalwyr nad ydynt yn cam-drin a brodyr a chwiorydd

## Canlyniadau hirdymor rydym am eu cyflawni:

1. Bydd gan bob plentyn a pherson ifanc yr effeithiwyd arnynt gan gam-drin plant yn rhywiol fynediad at gymorth priodol ac amserol sy'n diwallu eu hanghenion.

2. Gall pob gwasanaeth ac ymarferydd ddarparu'r cymorth iawn ar yr adeg iawn i blant, pobl ifanc a'r rhai o'u cwmpas yr effeithiwyd arnynt gan gam-drin plant yn rhywiol.

3. Mae gan deuluoedd a'r rhai sydd o gwmpas plant a phobl ifanc yr effeithiwyd arnynt gan gam-drin plant yn rhywiol fynediad at gymorth sy'n diwallu eu hanghenion.

| Cam gweithredu lefel uchel | Pwy sy'n arwain y gwaith | Yr hyn y byddwn yn ei wneud | Pryd | Canlyniadau bwriedig | Rhanddeiliaid allweddol |
|---|---|---|---|---|---|
| **4.1 Datblygu darlun manwl o'r ddarpariaeth o gymorth sydd ar gael i blant a phobl ifanc, rhieni/gofalwyr nad ydynt yn cam-drin, brodyr a chwiorydd ac aelodau eraill o'r teulu yng Nghymru, gan gynnwys plant sydd â rhiant sydd wedi'i arestio/ sydd ag euogfarn o droseddau cam-drin/ camfanteisio/CSAM ar-lein.** | Grŵp ffrwd waith cymorth i blant a theuluoedd | Mapio'r mecanweithiau cyllido a chymorth sydd ar gael.<br><br>Paratoi dadansoddiad o anghenion ac argymhellion ar ddarpariaeth gwasanaethau.<br><br>Datblygu a chyhoeddi canllawiau comisiynu. | Blwyddyn 1<br><br>Blynyddoedd 1 a 2<br><br>Blwyddyn 3 | Darlun clir o'r ddarpariaeth o gymorth sydd ar gael i blant a phobl ifanc, brodyr a chwiorydd a rhieni/gofalwyr nad ydynt yn cam-drin a fydd yn llywio'r gwaith o gomisiynu gwasanaethau cymorth ledled Cymru yn y dyfodol. | Llywodraeth Cymru<br><br>Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (VAWDASV), Canolfannau Atgyfeirio Ymosodiadau Rhywiol (SARCs), cydweithwyr polisi iechyd meddwl<br><br>Byrddau Diogelu Rhanbarthol<br><br>Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol<br><br>Partneriaid statudol - awdurdodau lleol, yr heddlu, y gwasanaeth prawf, y gwasanaeth cyfiawnder ieuenctid, byrddau ac ymddiriedolaethau iechyd<br><br>Sefydliadau'r trydydd sector sy'n cefnogi pobl yr effeithiwyd arnynt gan gam-drin plant yn rhywiol<br><br>Rhieni/gofalwyr, brodyr a chwiorydd |

| Cam gweithredu lefel uchel | Pwy sy'n arwain y gwaith | Yr hyn y byddwn yn ei wneud | Pryd | Canlyniadau bwriedig | Rhanddeiliaid allweddol |
|---|---|---|---|---|---|
| **4.2 Mapio cyngor a chanllawiau ar gyfer plant, pobl ifanc (gan gynnwys y rhai sydd â rhiant sydd wedi'i arestio/ sydd ag euogfarn o droseddau cam-drin/camfanteisio/ CSAM ar-lein), rhieni/ gofalwyr nad ydynt yn cam-drin a brodyr a chwiorydd yr effeithiwyd arnynt gan gam-drin plant yn rhywiol** | Grŵp ffrwd waith cymorth i blant a theuluoedd. | Mapio'r cyngor a'r canllawiau sydd ar gael, yn enwedig o ran y llysoedd troseddol a'r llysoedd teulu, ar gyfer plant, pobl ifanc, brodyr a chwiorydd ac ar gyfer rhieni/gofalwyr nad ydynt yn cam-drin.<br><br>Canoli adnoddau gydag adnoddau eraill i deuluoedd, nodi bylchau a datblygu adnoddau i fynd i'r afael â'r bylchau a nodwyd. | Blwyddyn 1<br><br>Blynyddoedd 2 a 3 | Bydd yr holl blant a phobl ifanc yr effeithir arnynt, rhieni/gofalwyr nad ydynt yn cam-drin a brodyr a chwiorydd yn gallu cael mynediad at wybodaeth sy'n eu helpu i gael mynediad at eu hawliau a chael y cymorth sydd ei angen arnynt ar yr adeg y mae ei angen arnynt. | Grŵp cynghorol dioddefwyr-oroeswyr<br><br>Grŵp cynghorol plant a phobl ifanc.<br><br>Llywodraeth Cymru<br><br>Llysoedd troseddol a theulu<br><br>CAFCASS Cymru<br><br>Sefydliadau statudol - awdurdodau lleol, yr heddlu, y gwasanaeth prawf, y gwasanaeth cyfiawnder ieuenctid a byrddau ac ymddiriedolaethau iechyd<br><br>Sefydliadau'r trydydd sector sy'n cefnogi pobl yr effeithiwyd arnynt gan gam-drin plant yn rhywiol |

| Cam gweithredu lefel uchel | Pwy sy'n arwain y gwaith | Yr hyn y byddwn yn ei wneud | Pryd | Canlyniadau bwriedig | Rhanddeiliaid allweddol |
|---|---|---|---|---|---|
| 4.3 Gweithio gyda grwpiau ffrydiau gwaith eraill er mwyn sicrhau bod dull cymorth teulu cyfan sy'n ystyriol o drawma yn sail i'r holl hyfforddiant a'r holl waith codi ymwybyddiaeth | Grŵp ffrwd waith cymorth i blant a theuluoedd. | Sicrhau bod dulliau sy'n ystyriol o drawma yn ganolog i'r gwaith o gynllunio a chyflawni'r holl ymyriadau cefnogol yng Nghymru. | Blynyddoedd 1-3 | Mae dulliau sy'n ystyriol o drawma yn cael eu hyrwyddo ac yn rhan annatod o'r gwaith sy'n cael ei gyflawni o dan y strategaeth. | Llywodraeth Cymru<br><br>Sefydliadau statudol - awdurdodau lleol, yr heddlu, y gwasanaeth prawf, y gwasanaeth cyfiawnder ieuenctid a byrddau ac ymddiriedolaethau iechyd<br><br>Sefydliadau'r trydydd sector sy'n cefnogi pobl yr effeithiwyd arnynt gan gam-drin plant yn rhywiol |

# Adran 5:
# Cefnogi oedolion sy'n ddioddefwyr-oroeswyr

## Canlyniadau hirdymor rydym am eu cyflawni:

1. Creu a chynnal diwylliant o onestrwydd a dealltwriaeth, ac amgylchedd lle mae oedolion yn teimlo'n ddiogel ac yn hyderus i siarad am gam-drin rhywiol a ddigwyddodd iddynt pan oeddent yn blant.

2. Mae pob person ifanc a'u teuluoedd sy'n cael eu heffeithio gan gam-drin rhywiol yn cael mynediad at gymorth wrth iddynt bontio i fod yn oedolyn a thu hwnt.

3. Mae pob gwasanaeth ac ymarferydd yn darparu'r cymorth iawn ar yr adeg iawn i oedolion yr effeithiwyd arnynt gan gam-drin rhywiol pan oeddent yn blant neu'n bobl ifanc.

| Cam gweithredu lefel uchel | Pwy sy’n arwain y gwaith | Yr hyn y byddwn yn ei wneud | Pryd | Canlyniadau bwriedig | Rhanddeiliaid allweddol |
|---|---|---|---|---|---|
| **5.1 Sefydlu grŵp prosiect Ymholiadau Arferol i ddatblygu a chyflwyno hyfforddiant i helpu pob ymarferydd i ofyn i oedolion am gam-drin plant yn rhywiol, fel mater o drefn.** | Grŵp ffrwd waith cymorth i oedolion | Sefydlu grŵp gorchwyl a gorffen i sefydlu pa hyfforddiant ymholiadau arferol sydd ar gael yn y DU ac ymgymryd â gwerthusiad o brosiectau presennol Gofyn y Cwestiwn/ Ymholiadau Arferol.<br><br>Mewn cydweithrediad â phartneriaid, dylunio rhaglen hyfforddi Gofyn y Cwestiwn/ Ymholiadau Arferol Cymru Gyfan a fydd yn cael ei chyflwyno’n gyson ledled Cymru.<br><br>Cynllun cyflwyno ar gyfer Gofyn y Cwestiwn/ Ymholiadau Arferol ledled Cymru. | Blwyddyn 1<br><br>Blynyddoedd 1 a 2<br><br>Blwyddyn 3 | Bydd gan bob ymarferydd sy’n gweithio gydag oedolion yng Nghymru yr wybodaeth, yr hyder a’r sgiliau i holi’n sensitif ac fel mater o drefn ynghylch cam-drin plant yn rhywiol<br><br>Bydd y cymorth cywir yn cael ei ddarparu ar yr adeg iawn i oedolion yr effeithiwyd arnynt gan gam-drin rhywiol. | Grŵp cynghorol dioddefwyr-oroeswyr<br><br>Grwpiau dioddefwyr-oroeswyr ledled Cymru<br><br>Llywodraeth Cymru<br><br>Byrddau Diogelu Rhanbarthol<br><br>Sefydliadau statudol - awdurdodau lleol, yr heddlu, y gwasanaeth prawf, y gwasanaeth cyfiawnder ieuenctid a byrddau ac ymddiriedolaethau iechyd<br><br>Sefydliadau’r trydydd sector sy’n cefnogi pobl yr effeithiwyd arnynt gan gam-drin plant yn rhywiol |

| Cam gweithredu lefel uchel | Pwy sy’n arwain y gwaith | Yr hyn y byddwn yn ei wneud | Pryd | Canlyniadau bwriedig | Rhanddeiliaid allweddol |
|---|---|---|---|---|---|
| **5.2 Datblygu canllawiau i awdurdodau lleol ynghylch meini prawf cymhwysedd, gofal a chymorth i oedolion sy’n ddioddefwyr-oroeswyr cam-drin plant yn rhywiol, gan gynnwys capasiti sefyllfaol.** | Grŵp ffrwd waith cymorth i oedolion | Cydweithio ag awdurdodau lleol ar ddatblygu canllawiau, gan gynnwys meini prawf cymhwysedd ar gyfer cael mynediad at ofal a chymorth i oedolion sy’n ddioddefwyr-oroeswyr ac ystyriaethau capasiti sefyllfaol.<br><br>Datblygu’r canllawiau a threfnu eu cyflwyno ledled Cymru.<br><br>Asesu a yw’r canllawiau wedi’u hintegreiddio’n dda ac yn cael eu defnyddio’n effeithiol, ac adolygu yn ôl yr angen. | Blwyddyn 1<br><br>Blynyddoedd 1 a 2<br><br>Blwyddyn 3 | Mae gwasanaethau gofal cymdeithasol i oedolion yn glir ynghylch eu rôl a’u cyfrifoldebau tuag at oedolion sy’n oroeswyr cam-drin plant yn rhywiol o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.<br><br>Bydd y cymorth cywir yn cael ei ddarparu ar yr adeg iawn i oedolion sydd wedi cael eu heffeithio gan gam-drin rhywiol. | Grŵp cynghorol dioddefwyr-oroeswyr<br><br>Grwpiau dioddefwyr-oroeswyr ledled Cymru<br><br>Byrddau Diogelu Rhanbarthol<br><br>Sefydliadau statudol - awdurdodau lleol, yr heddlu, y gwasanaeth prawf, y gwasanaeth cyfiawnder ieuenctid a byrddau ac ymddiriedolaethau iechyd<br><br>Sefydliadau’r trydydd sector sy’n cefnogi pobl yr effeithiwyd arnynt gan gam-drin plant yn rhywiol |

| Cam gweithredu lefel uchel | Pwy sy'n arwain y gwaith | Yr hyn y byddwn yn ei wneud | Pryd | Canlyniadau bwriedig | Rhanddeiliaid allweddol |
|---|---|---|---|---|---|
| **5.3 Nodi anghenion gwasanaeth nas diwallwyd ar gyfer oedolion sy'n oroeswyr cam-drin plant yn rhywiol yng Nghymru a chynnal dadansoddiad o anghenion i argymell rhagor o gamau gweithredu.** | Grŵp ffrwd waith cymorth i oedolion | Ymgysylltu â dioddefwyr-oroeswyr ac aelodau o'r teulu yr effeithir arnynt gan gam-drin plant yn rhywiol er mwyn sefydlu beth sy'n gweithio a beth sy'n bwysig o ran cymorth adfer<br><br>Mapio gwasanaethau cymorth sydd ar gael a sut maent yn cael eu hariannu.<br><br>Cynhyrchu dadansoddiad o anghenion ac argymhellion ar gyfer Llywodraeth Cymru a Byrddau Diogelu Rhanbarthol ynghylch darpariaeth gwasanaethau i oedolion sy'n oroeswyr cam-drin plant yn rhywiol.<br><br>Cefnogi pobl ifanc a arddangosodd ymddygiadau rhywiol niweidiol pan oeddent yn blant i bontio i fod yn oedolion drwy sicrhau mynediad at gymorth arbenigol i lywio asesiadau o'u gallu i rianta. | Blwyddyn 1 ymlaen<br><br>Blynyddoedd 1 a 2<br><br>Blwyddyn 2<br><br>Blwyddyn 3 | Dealltwriaeth gynhwysfawr o ddarpariaeth gwasanaethau adfer, cwnsela a chymorth i oedolion sy'n oroeswyr cam-drin plant yn rhywiol<br><br>Bydd gan gomisiynwyr wybodaeth dda am anghenion oedolion sy'n oroeswyr a'r ddarpariaeth sydd ar gael yn eu hardaloedd<br><br>Gall oedolion sy'n oroeswyr cam-drin plant yn rhywiol yng Nghymru gael mynediad at wasanaethau cwnsela a gwasanaethau cymorth cysylltiedig a fydd yn helpu gyda gwella ac adfer yn ôl yr angen | Grŵp cynghorol dioddefwyr-oroeswyr<br><br>Grwpiau dioddefwyr-oroeswyr ledled Cymru<br><br>Llywodraeth Cymru<br><br>Byrddau Diogelu Rhanbarthol<br><br>Darparwyr<br><br>Sefydliadau statudol - awdurdodau lleol, yr heddlu, y gwasanaeth prawf, y gwasanaeth cyfiawnder ieuenctid a byrddau ac ymddiriedolaethau iechyd<br><br>Sefydliadau'r trydydd sector sy'n cefnogi pobl yr effeithiwyd arnynt gan gam-drin plant yn rhywiol |

| Cam gweithredu lefel uchel | Pwy sy'n arwain y gwaith | Yr hyn y byddwn yn ei wneud | Pryd | Canlyniadau bwriedig | Rhanddeiliaid allweddol |
|---|---|---|---|---|---|
| 5.4 Cydweithio â fforymau ledled Cymru i gefnogi oedolion sy'n ddioddefwyr-oroeswyr. | Grŵp ffrwd waith cymorth i oedolion | Sefydlu tîm cynllunio bach er mwyn dwyn grwpiau ynghyd i archwilio'r posibilrwydd o sefydlu rhwydwaith i oedolion sy'n ddioddefwyr-oroeswyr yng Nghymru a datblygu cynllun i'w roi ar waith os cytunir ar hyn.<br><br>Creu digwyddiad rhwydweithio Cymru gyfan i ddioddefwyr-oroeswyr cam-drin plant yn rhywiol i gynllunio gweithgarwch ar gyfer y dyfodol. | Blynyddoedd 2 a 3<br><br>Blwyddyn 3 | Bydd y Strategaeth yn cael ei datblygu a'i gweithredu gyda dioddefwyr-oroeswyr cam-drin plant yn rhywiol yn rhan annatod ohoni, gan sicrhau bod eu lleisiau'n cael eu clywed drwy gydol y broses. | Grŵp cynghorol dioddefwyr-oroeswyr<br><br>Grwpiau dioddefwyr-oroeswyr ledled Cymru<br><br>Llywodraeth Cymru<br><br>Byrddau Diogelu Rhanbarthol<br><br>Sefydliadau statudol - awdurdodau lleol, yr heddlu, y gwasanaeth prawf, y gwasanaeth cyfiawnder ieuenctid a byrddau ac ymddiriedolaethau iechyd<br><br>Sefydliadau'r trydydd sector sy'n cefnogi pobl yr effeithiwyd arnynt gan gam-drin plant yn rhywiol |

# Camau gweithredu o strategaethau a chynlluniau gweithredu ehangach Llywodraeth Cymru sy'n berthnasol i gyflawni ein gweledigaeth a'n hamcanion strategol

**Noder:** Nid dyma unig strategaethau a chynlluniau gweithredu Llywodraeth Cymru sy'n gysylltiedig, ond dyma'r rhai sydd agosaf at y strategaeth ar gyfer Atal ac Ymateb i Gam-drin Plant yn Rhywiol. Mae meysydd polisi perthnasol ehangach wedi'u cynnwys yn y ddogfen strategaeth.

<table>
<tr><th>Strategaeth/cynllun gweithredu perthnasol</th><th>Bwriad</th><th>Sut mae’n ymwneud â gweledigaeth ac amcanion strategol ein strategaeth a sut y byddwn yn rheoli’r hyn sy’n gorgyffwrdd</th></tr>
<tr><td rowspan="6">Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (VAWDASV) - glasbrint o gynllun gweithredu lefel uchel<br><br>(Yn berthnasol i amcanion strategol 1, 2, 3 a 4 y strategaeth hon)</td><td>Herio agwedd y cyhoedd tuag at drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol ledled poblogaeth Cymru drwy godi ymwybyddiaeth ac ysgogi trafodaeth gyhoeddus gyda’r nod o leihau’r achosion ohono.</td><td rowspan="6">Er bod strategaeth VAWDASV yn cynnwys mynd i’r afael â phob agwedd ar gam-drin mewn cydberthynas, mae’n bwysig nodi bod cam-drin plant yn rhywiol yn fath o drais rhywiol. Felly, mae gan strategaeth VAWDASV gysylltiad uniongyrchol â’r strategaeth genedlaethol ar gyfer Atal ac Ymateb i Gam-drin Plant yn Rhywiol 2026-2036.<br><br>Mae yna gyfleoedd i ni gydweithio ar godi ymwybyddiaeth y cyhoedd o drais rhywiol, codi ymwybyddiaeth ymhlith plant a phobl ifanc a hyrwyddo perthnasoedd iach, pob un ohonynt yn rhan o’n ffrwd waith Atal Cam-drin Plant yn Rhywiol, yn enwedig camau gweithredu lefel uchel 2.1, 2.2 a 2.3.<br><br>Nod y ddwy strategaeth yw dwyn pobl i gyfrif am ymddygiad camdriniol ac atal troseddu fel bod rhywfaint o debygrwydd rhyngddynt a photensial i rai pobl gyflawni trais rhywiol/cam-drin rhywiol yn erbyn plant, pobl ifanc ac oedolion. Mae ymchwil yn dweud wrthym fod cydberthynas gref rhwng cam-drin domestig a mathau eraill o gam-drin fel cam-drin plant yn rhywiol. Mae’n bwysig felly i bob maes polisi gael sylw ar y gwaith sy’n cael ei gwblhau i fynd i’r afael ag ymddygiadau camdriniol.<br><br>Mae dau o’n pedwar amcan strategol yn ymwneud â chymorth – 3) cefnogi plant, rhieni/gofalwyr nad ydynt yn cam-drin, brodyr a chwiorydd ac aelodau eraill o’r teulu i adfer o gam-drin plant yn rhywiol; a 4) cefnogi oedolion sy’n ddioddefwyr-oroeswyr i adfer o gam-drin plant yn rhywiol.<br><br>Mae yna gysylltiad clir ag amcan VAWDASV i ddarparu cymorth i’r rhai sydd wedi cael eu heffeithio gan drais rhywiol. Mae’r ddwy strategaeth yn cwmpasu hyd oes.<br><br>Byddwn yn rheoli’r cysylltiad rhwng y strategaethau hyn drwy sicrhau bod polisi VAWDASV yn cael ei gynrychioli ar y grŵp cynghori polisi mewnol, y Bwrdd Gweithredu a Throsolwg Strategol a grwpiau ffrydiau gwaith perthnasol.<br><br>Yn yr un modd, bydd cynrychiolwyr o’r tîm polisi Diogelu ac Eiriolaeth yn parhau i fynychu grwpiau ffrwd waith VAWDASV ar gyfer plant a phobl ifanc a phobl hŷn.<br><br>Ar hyn o bryd, rydym yn archwilio’r syniad o grŵp cynghorol Plant a Phobl Ifanc ar y cyd.</td></tr>
<tr><td>Cynyddu ymwybyddiaeth plant, pobl ifanc ac oedolion o bwysigrwydd cydberthnasau diogel, cyfartal ac iach a’u grymuso i wneud dewisiadau personol cadarnhaol.</td></tr>
<tr><td>Cynyddu’r ffocws ar ddwyn y rhai sy’n cam-drin i gyfrif a chefnogi’r rhai a all ymddwyn yn gamdriniol neu’n dreisgar i newid eu hymddygiad ac osgoi troseddu.</td></tr>
<tr><td>Rhoi blaenoriaeth i ymyrryd yn gynnar ac atal trais a cham-drin.</td></tr>
<tr><td>Hyfforddi gweithwyr proffesiynol perthnasol i ddarparu ymatebion effeithiol, amserol a phriodol i ddioddefwyr a goroeswyr.</td></tr>
<tr><td>Sicrhau bod pob dioddefwr yn cael mynediad cyfartal at wasanaethau croestoriadol ac ymatebol o ansawdd uchel, gydag adnoddau priodol, o ansawdd uchel, dan arweiniad anghenion ac sy’n seiliedig ar gryfderau ledled Cymru.</td></tr>
</table>

| Strategaeth/cynllun gweithredu perthnasol | Bwriad | Sut mae’n ymwneud â gweledigaeth ac amcanion strategol ein strategaeth a sut y byddwn yn rheoli’r hyn sy’n gorgyffwrdd |
|---|---|---|
| Cynllun aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion a gyhoeddwyd Ionawr 2024<br><br>(Yn berthnasol i amcanion strategol 1 a 2 y strategaeth hon) | Mae’r Cynllun gweithredu aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion yn amlinellu’r camau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd, ar y cyd â phartneriaid, i atal ac ymateb i’r mater o aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion ac ymddygiad rhywiol niweidiol mewn lleoliadau addysg. Rhan sylfaenol o’r gwaith hwn yw helpu lleoliadau addysg a’r gymuned ysgol ehangach i ddeall eu rolau a’u cyfrifoldebau o ran creu amgylchedd dysgu diogel - un lle mae pob plentyn a pherson ifanc yn cael eu hamddiffyn a lle mae aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion yn cael ei nodi, ei herio a’i ddatrys mewn modd cyson. | Mae aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion yn ffordd o ddisgrifio plant a phobl ifanc sy’n arddangos ymddygiadau rhywiol niweidiol tuag at blant a phobl ifanc eraill. Er bod y Cynllun Gweithredu hwn yn benodol i leoliadau addysg, mae yna debygrwydd sylweddol ar draws y ddwy strategaeth mewn perthynas â mynd i’r afael ag ymddygiadau rhywiol niweidiol gan ddefnyddio dull teulu cyfan sy’n ystyriol o drawma.<br><br>O dan ein hamcan strategol Atal cam-drin plant yn rhywiol, ein nod yw hyrwyddo gwybodaeth i weithwyr proffesiynol am ddatblygiad rhywiol iach a chodi ymwybyddiaeth o berthnasoedd iach gyda phlant a phobl ifanc. Mae potensial sylweddol inni allu gweithio ar draws y meysydd hyn i ddysgu oddi wrth ein gilydd a nodi cyfleoedd i gydweithio a chydgynhyrchu cyngor a gwybodaeth ar gyfer gwahanol grwpiau sydd eu hangen.<br><br>Rydym eisoes wedi ymrwymo yn y cynllun cyflawni hwn i weithio gyda chydweithwyr yn y tîm polisi addysg cydberthynas a rhywioldeb er mwyn sicrhau bod plant a phobl ifanc yn cael yr wybodaeth gywir i’w galluogi i nodi risg a rhoi gwybod am bryderon i oedolyn y gellir ymddiried ynddo ond hefyd i sicrhau bod y gweithwyr proffesiynol sy’n cyflwyno’r rhaglenni hyn yn cael mynediad at gyngor, gwybodaeth ac adnoddau sy’n eu cefnogi.<br><br>Bydd swyddogion polisi addysg cydberthynas a rhywioldeb a swyddogion Cadernid Digidol, Diogelu mewn Addysg, Anghenion Dysgu Ychwanegol ac Addysg heblaw yn yr ysgol yn rhan o’r grŵp cynghori polisi mewnol ac yn cymryd rhan mewn grwpiau ffrydiau gwaith perthnasol. Bydd y gwaith traws-bolisi cydweithredol hwn yn sicrhau dull cydlynol o fynd i’r afael â phob math o gam-drin plant yn rhywiol.<br><br>Byddwn yn sicrhau y bydd y Grŵp Cynghorol Pobl Ifanc a sefydlir o dan y Cynllun Gweithredu hwn yn cael ei gynnwys mewn unrhyw waith ymgynghori ehangach rydym yn ei gynnal ynghylch cam-drin plant yn rhywiol ac y bydd y Grŵp Cynghorol Plant a Phobl Ifanc y byddwn yn ei sefydlu yn cynnal cysylltiad rheolaidd â’r grŵp arall.<br><br>Mae’r tîm Diogelu ac Eiriolaeth sy’n arwain ar y strategaeth ar gyfer cam-drin plant yn rhywiol wedi cyfrannu at adolygiadau parhaus o ganllawiau statudol ar gyfer y sector addysg, gan gynnwys y Canllawiau Ymdrin â Honiadau, y Canllawiau Cadw Dysgwyr yn Ddiogel a’r Canllawiau Gwrth-fwlio. |

| Strategaeth/cynllun gweithredu perthnasol | Bwriad | Sut mae'n ymwneud â gweledigaeth ac amcanion strategol ein strategaeth a sut y byddwn yn rheoli'r hyn sy'n gorgyffwrdd |
|---|---|---|
| Cynllun aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion a gyhoeddwyd Ionawr 2024<br><br>(Yn berthnasol i amcanion strategol 1 a 2 y strategaeth hon) | Mae'r cynllun gweithredu hwn yn ymgorffori camau sy'n cael eu cymryd i fynd i'r afael â'r canlynol:<br><br>• argymhellion adroddiad Estyn yn dilyn adolygiad thematig i brofiadau o aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion ymhlith disgyblion mewn ysgolion uwchradd yng Nghymru, a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2021<br><br>• ymchwiliad y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg i aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion, a gyhoeddwyd yn 2022<br><br>• argymhellion adroddiad Estyn yn dilyn adolygiad thematig i aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion mewn Sefydliadau Addysg Bellach, a gyhoeddwyd ym mis Mehefin 2023 | Bydd yn parhau i fod yn hanfodol sicrhau bod y grŵp ffrwd waith perthnasol o dan y strategaeth hon yn cymryd rhan pan fydd strategaethau, cynlluniau gweithredu, ymgyrchoedd, canllawiau ac adnoddau eraill sy'n ymwneud â diogelu plant rhag cam-drin rhywiol o unrhyw fath yn cael eu datblygu neu eu diwygio. Bydd hyn yn sicrhau bod y dogfennau hyn wedi'u datblygu ar y cyd ag arbenigwyr yn y maes ac yn cryfhau cydlyniant ar draws meysydd polisi.<br><br>Bydd dau gam gweithredu arwyddocaol yn y cynllun cyflawni hwn yn cefnogi gweithwyr proffesiynol mewn lleoliadau addysg: y cyntaf yw datblygu fframwaith hyfforddi ar gyfer cam-drin plant yn rhywiol; a'r ail yw'r gwaith i sicrhau bod gweithwyr proffesiynol yn cael mynediad at gyngor arbenigol ar gam-drin plant yn rhywiol pan fydd ei angen arnynt.<br><br>Ein nod yw canoli'r holl offer/adnoddau/dolenni cam-drin plant yn rhywiol sy'n seiliedig ar dystiolaeth o amrywiaeth o ffynonellau ar gyfer rhieni/y rhai sy'n rhoi gofal, plant a phobl ifanc a gweithwyr proffesiynol mewn gwefan y byddwn yn ei datblygu a fydd yn cynnwys yr holl wybodaeth am y strategaeth. Bydd hyn yn cynnwys dolenni i strategaethau, cynlluniau gweithredu ac adnoddau sy'n gorgyffwrdd, cynlluniau cyflawni'r strategaeth ac adroddiadau cynnydd.<br><br>Yn y strategaeth, rydym wedi cydnabod bod yna rai grwpiau o blant sydd mewn mwy o berygl o brofi cam-drin rhywiol. Mae hyn yn cynnwys plant anabl, plant ag anghenion dysgu ychwanegol, pobl ifanc LHDTC+ a phlant niwrowahanol. Wrth adolygu'r adnoddau sydd ar gael a nodi'r bylchau, byddwn yn ystyried hefyd a yw'r wybodaeth yn diwallu anghenion pob plentyn a rhiant/gofalwr a byddwn yn datblygu rhagor o adnoddau os oes angen er mwyn sicrhau eu bod yn hygyrch i bawb sydd eu hangen. |

| Strategaeth/cynllun gweithredu perthnasol | Bwriad | Sut mae’n ymwneud â gweledigaeth ac amcanion strategol ein strategaeth a sut y byddwn yn rheoli’r hyn sy’n gorgyffwrdd |
|---|---|---|
| Gwella cadernid digidol mewn addysg: Cynllun gweithredu i ddiogelu plant a phobl ifanc ar-lein<br><br>(Yn berthnasol i amcanion strategol 1 a 2 y strategaeth hon)<br><br>Gwella cadernid digidol mewn addysg: Cynllun gweithredu i ddiogelu plant a phobl ifanc ar-lein - Hwb | Mae’r cynllun gweithredu Gwella Cadernid Digidol mewn Addysg yn nodi’r gwaith rydym yn ei arwain i helpu i ddiogelu plant a phobl ifanc rhag cynnwys anghyfreithlon, niweidiol a chamarweiniol ar-lein, gan hyrwyddo ymddygiad diogel, cyfrifol a pharchus hefyd.<br><br>Mae’r camau hyn yn cefnogi ein cenhadaeth i gryfhau arferion diogelu a grymuso cymuned yr ysgol gyfan i weithio gyda’i gilydd i fynd i’r afael â materion diogelwch ar-lein.<br><br>Mae darparu cyngor a chymorth yn rhan annatod o’r cynllun gweithredu hwn. Drwy gydweithio â phartneriaid arbenigol, awdurdodau lleol, ysgolion a’n grŵp ieuenctid Cadw’n Ddiogel Ar-lein, rydym yn adolygu ac yn datblygu adran ‘Cadw’n Ddiogel Ar-lein’ Hwb yn barhaus. Mae hyn yn sicrhau bod ysgolion, ymarferwyr, dysgwyr a’u teuluoedd yn cael mynediad at ganllawiau ac adnoddau cyfredol sy’n adlewyrchu tueddiadau a heriau ar-lein datblygol. | Mae nifer o’r camau gweithredu yn y Cynllun Gweithredu hwn yn ymddangos yn y Cynllun Gweithredu Aflonyddu Rhywiol Rhwng Cyfoedion hefyd. Er mwyn osgoi ailadrodd, dim ond unrhyw wybodaeth sydd eto i ddod rydym wedi ei hychwanegu yn yr adran hon.<br><br>Mae Camfanteisio’n Rhywiol ar Blant a Cham-drin Plant yn Rhywiol Ar-lein (OCSEA) yn faes sy’n parhau i dyfu. Mae’r data yn dangos bod nifer y bobl ifanc sy’n dod i sylw’r heddlu oherwydd y mathau hyn o faterion yn cynyddu hefyd. Mae’n hanfodol ein bod yn parhau i roi sylw i faterion sy’n parhau i ddod i’r amlwg ynghylch y math hwn o gam-drin plant yn rhywiol a chamfanteisio’n rhywiol ar blant.<br><br>Mae’r Tîm Cadernid Digidol mewn polisi addysg yn gweithio’n rheolaidd gyda sawl sefydliad allweddol e.e. Internet Matters, Internet Watch Foundation, yr Asiantaeth Troseddu Cenedlaethol (CEOP Education), UK Safer Internet Centre ac eraill. Drwy gynnwys cynrychiolwyr o’r maes polisi hwn yn ein grwpiau ffrydiau gwaith, ynghyd ag arbenigwyr sy’n gweithio yn y maes, gallwn sicrhau bod ein gwybodaeth yn gyfredol a’n bod yn addasu i newidiadau yn ddi-oed. |

| Strategaeth/cynllun gweithredu perthnasol | Bwriad | Sut mae'n ymwneud â gweledigaeth ac amcanion strategol ein strategaeth a sut y byddwn yn rheoli'r hyn sy'n gorgyffwrdd |
|---|---|---|
| Strategaeth Iechyd Meddwl a Llesiant Meddyliol 2025-2035<br><br>(Yn berthnasol i amcanion strategol 2, 3 a 4 y strategaeth hon) | Gweithio tuag at wneud Cymru yn genedl sy'n ystyriol o drawma, drwy feithrin dealltwriaeth unigol, gymunedol a sefydliadol o drawma ac adfyd, eu cyffredinrwydd, eu heffaith ar bobl, cymunedau a gwasanaethau, a sut y gallwn ni i gyd helpu'r rhai sy'n cael eu heffeithio gan drawma.<br><br>Datblygu dull newydd o ddarparu gofal ymyrraeth gynnar, gyda'r bwriad o gyflwyno gofal seicolegol mynediad agored yr un diwrnod yn seiliedig ar ddulliau sesiwn unigol sy'n hygyrch ledled Cymru pryd a lle bynnag y bo'i angen.<br><br>Datblygu ymhellach fodel o gymorth iechyd meddwl cymunedol sy'n canolbwyntio ar adfer.<br><br>Gwella Mynediad at Ymyriadau a Therapïau Seicolegol. Bydd hyn yn cynnwys ffocws ar gyflyrau iechyd meddwl cyffredin fel gorbryder ac iselder yn ogystal â chefnogi pobl â seicosis, anhwylder deubegynol a chyflyrau sy'n deillio o drawma a phobl â chyflyrau iechyd corfforol hirdymor. | Mae'r gwaith sy'n cael ei wneud o dan y Strategaeth Iechyd Meddwl a Llesiant Meddyliol 2025-2035 yn ymwneud â gwreiddio ymarfer sy'n ystyriol o drawma ar draws sefydliadau a'r cyhoedd. Ei nod hefyd yw gwella mynediad at ddarpariaeth gwasanaethau iechyd meddwl ar draws sbectrwm o anghenion a gwreiddio dull sy'n seiliedig ar gryfderau o ran iechyd meddwl.<br><br>Mae gwreiddio dull sy'n ystyriol o drawma yn hanfodol o ran lleihau stigma a gwella'r ymateb i bobl yr effeithir arnynt gan gam-drin plant yn rhywiol. Gall dioddefwyr-oroeswyr, boed yn blant neu'n oedolion, gysylltu â gweithwyr proffesiynol o unrhyw wasanaeth neu sefydliad os ydynt am ddatgelu eu profiadau. Mae'r ymateb cyntaf hwnnw'n bwysig a gall osod y cywair ar gyfer pob rhyngweithio proffesiynol arall. Dyna pam y bydd y strategaeth hyfforddi ar gyfer cam-drin plant yn rhywiol y byddwn yn ei datblygu yn cynnwys deunyddiau ar ffyrdd o ymateb sy'n ystyriol o drawma.<br><br>Gall pobl yr effeithiwyd arnynt gan gam-drin plant yn rhywiol ddatblygu problemau iechyd meddwl a/neu lesiant meddyliol oherwydd y trawma maent wedi'i brofi. Gwyddom hefyd fod llawer o ddioddefwyr-oroeswyr a'u teuluoedd yn dweud eu bod yn cael anawsterau wrth lywio'r ddarpariaeth iechyd meddwl sydd ar gael. Mae'r strategaeth hon yn hyrwyddo ffocws sy'n canolbwyntio ar adfer hefyd. |

**Noder:** Bydd y Gweinidogion yn cael crynodebau blynyddol o'r cynnydd, a bydd y rhain yn cael eu cyhoeddi ar y wefan. Bydd camau gweithredu yn y cynllun cyflawni yn cael eu datblygu dros y tair blynedd nesaf i adlewyrchu dysgu.

# Atal ac Ymateb i Gam-drin Plant yn Rhywiol yng Nghymru – Cynllun Cyflawni

2026-2029

llyw.cymru

Llywodraeth Cymru
Welsh Government